



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 Rhif 1954 (Cy.187)

2010 No. 1954 (W.187)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Cofrestru
Disgyblion) (Cymru) 2010**

**The Education (Pupil Registration)
(Wales) Regulations 2010**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli, gyda diwygiadau, Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995. Gwneir newidiadau o sylwedd fel a ganlyn.

These Regulations replace, with amendments, the Education (Pupil Registration) Regulations 1995. The following changes of substance are made.

Rhaid cynnwys enw disgybl yn y gofrestr dderbyn o ddechrau'r diwrnod cyntaf pan yw'r ysgol yn cytuno, neu pan hysbysir yr ysgol, y bydd y disgybl yn mynychu'r ysgol honno (rheoliad 5(3)).

The name of a pupil must be included in the admission register from the beginning of the first day on which the school has agreed, or has been notified, that the pupil will attend the school (regulation 5(3)).

Caniateir marcio disgybl yn y gofrestr bresenoldeb fel un sy'n analluog i fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau eithriadol pan fo safle'r ysgol wedi ei gau, neu ran ohono wedi ei chau, neu pan nad yw'r cludiant ar gael, a ddarperir fel arfer i'r disgybl hwnnw gan yr ysgol neu gan yr awdurdod lleol (rheoliad 6(1)).

A pupil may be marked in the attendance register as unable to attend due to exceptional circumstances where the school site, or part of it, is closed or where transport normally provided for that pupil by the school or the local authority is unavailable (regulation 6(1)).

Pan fo disgybl yn mynychu ysgol arall lle y mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig, rhaid ei farcio yn y gofrestr bresenoldeb fel un sy'n mynychu gweithgaredd addysgol cymeradwy (rheoliad 6(4)).

Where a pupil is attending another school at which he or she is a registered pupil he or she must be marked in the attendance register as attending an approved educational activity (regulation 6(4)).

Pan fo disgybl wedi ei gofrestru mewn mwy nag un ysgol, ni cheir dileu ei enw o gofrestr dderbyn ysgol y peidiodd â'i mynychu oni fydd perchennog unrhyw ysgol arall lle y mae'r disgybl wedi ei gofrestru yn cydsynio (ac eithrio pan fydd farw disgybl, neu pan waherddir disgybl yn barhaol, neu pan nad oes gan ddisgybl breswylfa barhaol) (rheoliad 8(1)(c) a 9).

Where a pupil is registered at more than one school his or her name may only be deleted from the admission register of a school which he or she has ceased to attend, where the proprietor of any other school at which the pupil is registered gives his or her consent (except where the pupil has died, been permanently excluded or is of no fixed abode) (regulation 8(1)(c) and 9).

Cyn y ceir dileu enw disgybl o'r gofrestr dderbyn ar y sail na ddychwelodd ar ôl cael caniatâd i fod yn absennol am fwy na deng niwrnod, rhaid i berchennog yr ysgol yn ogystal â'r awdurdod lleol, ar ôl gwneud ymholiad rhesymol, fod wedi methu â chanfod lle y mae'r disgybl hwnnw (rheoliad 8(1)(dd)).

Before deleting a pupil's name from the admission register on the ground that they have not returned from a leave of absence exceeding ten days, both the proprietor and the local authority must have failed, after reasonable enquiry, to ascertain where the pupil is (regulation 8(1)(f)).

Mae'r cyfnod o absenoldeb diawdurdod di-dor disgybl sy'n sail dros ganiatáu, ar ôl hynny, ddileu enw'r disgybl o'r gofrestr dderbyn, wedi ei newid i ugain diwrnod ysgol, ac yn ychwanegol mae'n rhaid nad oes gan y perchennog sail resymol dros gredu bod y disgybl yn analluog i fynychu'r ysgol oherwydd salwch neu unrhyw achos anocheladwy arall (rheoliad 8(1)(f)).

Yn achos disgybl a gedwir yn gaeth yn unol â gorchymyn terfynol llys neu orchymyn adalw, ni chaniateir bellach ddileu ei enw o'r gofrestr dderbyn ac eithrio pan yw'r gorchymyn i barhau am gyfnod o bedwar mis o leiaf, ac nad oes gan y perchennog sail resymol dros gredu y bydd y disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ar ddiwedd y cyfnod hwnnw (rheoliad 8(1)(ff)).

Mae'r gofyniad i wneud datganiad i'r awdurdod lleol pan ddilëir enw disgybl ar seiliau penodol yn cael ei estyn. Mae'r gofyniad hwnnw bellach yn gymwys hefyd i ddileadau o dan reoliad 8(1)(c), (ch), (e), (ff) ac (i) (rheoliad 12(3)).

Os cedwir cofrestr ar gyfrifiadur, rhaid creu copi wrth gefn o'r gofrestr honno, o leiaf unwaith y mis, ar ffurf copi electronig, microfiche neu brintiedig (rheoliad 15(2)).

The period after which a pupil's name may be deleted from the admission register on the ground that the pupil has been continuously absent without authorisation has been changed to twenty school days, and additionally the proprietor must not have reasonable grounds to believe that the pupil is unable to attend the school by reason of sickness or unavoidable cause (regulation 8(1)(h)).

The name of a pupil who is detained in pursuance of a final court order or order of recall may now only be deleted from the admission register where the order is for a period of not less than four months and where the proprietor does not have reasonable grounds to believe that the pupil will return to school at the end of that period (regulation 8(1)(i)).

The requirement to make a return to the local authority where a pupil's name is deleted on certain grounds is extended. That requirement now also applies to deletions under regulation 8(1)(c), (d), (g), (i) and (m) (regulation 12(3)).

Where a register is kept by means of a computer that register must be backed-up in the form of an electronic, micro-fiche or printed copy not less than once a month (regulation 15(2)).

2010 Rhif 1954 (Cy.187)

2010 No. 1954 (W.187)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

**Rheoliadau Addysg (Cofrestru
Disgyblion) (Cymru) 2010**

**The Education (Pupil Registration)
(Wales) Regulations 2010**

Gwnaed 2 Awst 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 3 Awst 2010
Yn dod i rym 1 Medi 2010

Made 2 August 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 3 August 2010
Coming into force 1 September 2010

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 434(1), (3) a (4), 551(1) a 569 o Ddeddf Addysg 1996(1), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 434(1), (3) and (4), 551(1) and 569 of the Education Act 1996(1), and now vested in them, make the following Regulations:

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 1 Medi 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Pupil Registration) (Wales) Regulations 2010 and they come into force on 1 September 2010.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yn achos ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, yw'r awdurdod lleol hwnnw, ac ym mhob achos arall, yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal y lleolir yr ysgol ynddi;

mae i "cwrwicwlwm lleol", mewn perthynas â disgyblion yn y pedwerydd cyfnod allweddol, yr ystyr a roddir i "*local curriculum*" gan adran 97 o Ddeddf Addysg 2002 ac, mewn perthynas â disgyblion sydd dros oedran ysgol gorfodol ond nad ydynt wedi cyrraedd pedair ar bymtheg oed, yr

Interpretation

2. In these Regulations—

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means in the case of a school maintained by a local authority that local authority, and in every other case the local authority for the area in which the school is situated;

"local curriculum" ("*cwrwicwlwm lleol*"), in relation to pupils in the fourth key stage, has the meaning given by section 97 of the Education Act 2002 and, in relation to pupils who are above compulsory school age but have not attained the age of

(1) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 434, 551 a 569, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Diwygiwyd adran 434 gan baragraff 111(a) a (b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Diwygiwyd adran 551 gan baragraff 166(a) a (b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

(1) The functions of the Secretary of State under sections 434, 551 and 569 were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers under paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32). Section 434 was amended by paragraph 111(a) and (b) of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31). Section 551 was amended by paragraph 166(a) and (b) of Schedule 30 to the School Standards and Framework Act 1998.

ystyr a roddir i "*local curriculum*" gan adran 33N o Ddeddf Addysg a Medrau 2000(1); ac

ystyr "person perthnasol" ("*relevant person*")—

- (a) mewn perthynas â disgybl sydd o dan 18 mlwydd oed, yw rhiant y disgybl;
- (b) mewn perthynas â disgybl a gyrrhaeddodd yr oedran hwnnw, yw'r disgybl.

Dirymu

3. Dirymir Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995(2).

Y cofrestrau sydd i'w cadw

4. Rhaid i berchennog pob ysgol beri bod y canlynol yn cael eu cadw—

- (a) cofrestr dderbyn; a
- (b) ac eithrio yn achos ysgol lle y mae pob disgybl yn ddisgybl preswyl, cofrestr bresenoldeb.

Cynnwys y gofrestr dderbyn

5.—(1) Rhaid i'r gofrestr dderbyn ar gyfer pob ysgol gynnwys mynegai, yn nhrefn yr wyddor, o'r holl ddisgyblion sydd yn yr ysgol, a chynnwys yn ogystal y manylion canlynol mewn perthynas â phob un o'r cyfryw ddisgyblion—

- (a) enw llawn;
- (b) rhyw;
- (c) enw a chyfeiriad pob person y mae'n hysbys i berchennog yr ysgol ei fod yn rhiant i'r disgybl, a chyferbyn â'r cofnod yn y gofrestr o fanylion unrhyw riant y mae'r disgybl yn preswylio gydag ef fel rheol, dynodiad o'r ffaith honno a chofnod o un rhif teleffon o leiaf, y gellir cysylltu â'r rhiant drwyddo mewn argyfwng;
- (ch) dydd, mis a blwyddyn ei eni;
- (d) dydd, mis a blwyddyn ei dderbyn neu'i aildderbyn i'r ysgol; ac
- (dd) enw a chyfeiriad yr ysgol a fynychwyd ddiwethaf, os oes un.

(2) Yn achos pob ysgol sy'n cynnwys disgyblion preswyl, rhaid ychwanegu at y manylion a bennir ym mharagraff (1) ddatganiad pa un ai disgybl preswyl ynteu disgybl dydd yw pob un o'r disgyblion sydd mewn oedran ysgol gorfodol, a rhaid diwygio'r datganiad hwnnw yn briodol pan fo disgybl

nineteen, has the meaning given by section 33N of the Learning and Skills Act 2000(1); and

"relevant person" ("*person perthnasol*") means—

- (a) in relation to a pupil under the age of 18, a parent of the pupil;
- (b) in relation to a pupil who has attained that age, the pupil.

Revocation

3. The Education (Pupil Registration) Regulations 1995(2) are revoked.

Registers to be kept

4. The proprietor of every school must cause to be kept—

- (a) an admission register; and
- (b) except in the case of a school of which all the pupils are boarders, an attendance register.

Contents of admission register

5.—(1) The admission register for every school must contain an index in alphabetical order of all the pupils at the school and must also contain the following particulars in respect of every such pupil—

- (a) name in full;
- (b) sex;
- (c) the name and address of every person known to the proprietor of the school to be a parent of the pupil and, against the entry on the register of the particulars of any parent with whom the pupil normally resides, an indication of that fact and a note of least one telephone number at which the parent can be contacted in an emergency;
- (d) day, month and year of birth;
- (e) day, month and year of admission or re-admission to the school; and
- (f) name and address of the school last attended, if any.

(2) In the case of every school which includes boarding pupils a statement as to whether each pupil of compulsory school age is a boarder or a day pupil must be added to the particulars specified in paragraph (1), and that statement must be amended accordingly where

(1) Mewnosodwyd adran 33N gan adran 35 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, ond nid yw mewn grym adeg gwneud y Rheoliadau hyn. Rhaid i'r cwricwla lleol ar gyfer myfyrwyr 16 i 18 oed gael eu llunio'n unol ag adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000. Mewnosodwyd adran 33A gan adran 22 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009.

(2) O.S. 1995/2089; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1997/2624, O.S. 2001/1109 (Cy.53), O.S. 2003/3227 (Cy.308) ac O.S. 2005/2913 (Cy.210).

(1) Section 33N was inserted by section 35 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, but is not in force at the time of making of these Regulations. The local curricula for students aged 16 to 18 must be formed in accordance with section 33A of the Learning and Skills Act 2000. Section 33A was inserted by section 22 of the Learning and Skills (Wales) Measure 2009.

(2) S.I. 1995/2089; as amended by S.I. 1997/2624, S.I. 2001/1109 (W.53), S.I. 2003/3227 (W.308) and S.I. 2005/2913 (W.210).

cofrestredig yn yr ysgol yn dod, neu'n peidio â bod, yn ddisgybl preswyl yn yr ysgol.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae disgybl yn ddisgybl yn yr ysgol o ddechrau'r diwrnod cyntaf pan gytuna, neu pan hysbysir, yr ysgol y bydd y disgybl yn mynychu'r ysgol.

Cynnwys y gofrestr bresenoldeb

6.—(1) Rhaid cofnodi'r manylion canlynol yn y gofrestr bresenoldeb ar ddechrau pob sesiwn foreol ac unwaith yn ystod pob sesiwn brynhawnol—

- (a) yn achos pob disgybl y cofnodwyd ei enw yn y gofrestr dderbyn ac nas dilëwyd ohoni, pa un a yw'r disgybl—
 - (i) yn bresennol;
 - (ii) yn absennol;
 - (iii) yn mynychu gweithgaredd addysgol cymeradwy o fewn paragraff (4); neu
 - (iv) yn analluog i fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau eithriadol o fewn paragraff (5);
- (b) yn achos unrhyw ddisgybl o'r fath sydd mewn oedran ysgol gorfodol ac yn absennol, datganiad pa un a yw'r absenoldeb wedi ei awdurdodi yn unol â pharagraff (2) ai peidio;
- (c) yn achos unrhyw ddisgybl o'r fath sydd mewn oedran ysgol gorfodol ac yn mynychu gweithgaredd addysgol cymeradwy, natur y gweithgaredd hwnnw; ac
- (ch) yn achos disgybl sy'n analluog i fod yn bresennol oherwydd amgylchiadau eithriadol, natur yr amgylchiadau hynny,

ond nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â disgybl sy'n ddisgybl preswyl.

(2) Yn achos disgybl nad yw'n ddisgybl preswyl, mae absenoldeb i'w drin fel pe bai wedi ei awdurdodi at ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) os rhoddwyd caniatâd i fod yn absennol i'r disgybl yn unol â rheoliad 7;
- (b) os yw'r disgybl yn analluog i fod yn bresennol—
 - (i) oherwydd salwch neu unrhyw achos anoacheladwy;
 - (ii) ar ddiwrnod a neilltuir ar gyfer cadwraeth grefyddol yn unig, gan y corff crefyddol y mae rhiant y disgybl yn perthyn iddo; neu
 - (iii) oherwydd bod yr awdurdod lleol wedi methu â gwneud trefniadau cludiant addas ar gyfer y disgybl y mae dyletswydd ar yr awdurdod i'w darparu o dan adran 3 neu 4 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008(1).

a registered pupil at the school becomes or ceases to be a boarder at the school.

(3) For the purpose of this regulation a pupil is a pupil at the school from the beginning of the first day on which the school has agreed, or has been notified, that the pupil will attend the school.

Contents of attendance register

6.—(1) The following particulars must be recorded in the attendance register at the commencement of each morning session and once during each afternoon session—

- (a) in the case of every pupil whose name is entered in and not deleted from the admission register whether the pupil is—
 - (i) present;
 - (ii) absent;
 - (iii) attending an approved educational activity within paragraph (4); or
 - (iv) unable to attend due to exceptional circumstances within paragraph (5);
- (b) in the case of any such pupil of compulsory school age who is absent, a statement whether or not the absence is authorised in accordance with paragraph (2);
- (c) in the case of any such pupil of compulsory school age who is attending an approved educational activity the nature of that activity; and
- (d) in the case of a pupil unable to attend due to exceptional circumstances, the nature of those circumstances,

but this paragraph does not apply in respect of the pupil who is a boarder.

(2) In the case of a pupil who is not a boarder, an absence is to be treated as authorised for the purposes of this regulation if—

- (a) the pupil has been granted leave of absence in accordance with regulation 7;
- (b) the pupil is unable to attend—
 - (i) by reason of sickness or any unavoidable cause;
 - (ii) on a day exclusively set apart for religious observance by the religious body to which his or her parent belongs; or
 - (iii) because the local authority has failed to make suitable transport arrangements for the pupil which it is under a duty to provide under section 3 or 4 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008(1).

(3) Os nad oes modd, ar adeg marcio'r gofrestr, canfod y rheswm am absenoldeb disgybl, rhaid cofnodi'r absenoldeb hwnnw fel un diawdurdod, a rhaid gwneud unrhyw gywiriad diweddarach i'r gofrestr, er mwyn cofnodi'r absenoldeb hwnnw fel un a awdurdodwyd, yn unol â rheoliad 13, a hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi i'r person sydd â chyfrifoldeb am lenwi'r gofrestr ganfod y rheswm am yr absenoldeb.

(4) Gweithgaredd addysgol cymeradwy yw—

- (a) gweithgaredd sy'n digwydd y tu allan i fangre'r ysgol, ac sydd—
 - (i) wedi ei gymeradwyo gan berson a awdurdodwyd ar gyfer hynny gan berchennog yr ysgol;
 - (ii) o natur addysgol, gan gynnwys profiad gwaith o dan adran 560 o Ddeddf Addysg 1996(1) a gweithgaredd chwaraeon; a
 - (iii) yn cael ei oruchwylio gan berson a awdurdodwyd ar gyfer hynny gan berchennog neu bennaeth yr ysgol;
- (b) presenoldeb mewn ysgol arall lle y mae'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig; neu
- (c) presenoldeb ar gwrs astudio o fewn y cwricwlwm lleol mewn man ac eithrio'r ysgol.

(5) Yr amgylchiadau eithriadol pan ganiateir marcio disgybl yn analluog i fod yn bresennol yw—

- (a) pan fo safle'r ysgol wedi ei gau, neu ran o'r safle wedi ei chau, oherwydd achos anocheiadwy ar adeg pan ddylai disgyblion fod yn bresennol;
- (b) yn achos disgybl y mae'r awdurdod lleol o dan ddyletswydd i wneud trefniadau cludiant addas ar ei gyfer y mae ganddo ddyletswydd i'w darparu o dan adran 3 neu 4 o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, pan na fo'r cludiant hwnnw ar gael; neu
- (c) pan fo argyfwng lleol neu genedlaethol wedi arwain at amharu'n helaeth ar deithio a bod hynny wedi atal y disgybl rhag mynychu'r ysgol.

(6) Ni cheir dileu enw disgybl o'r gofrestr bresenoldeb ac eithrio pan fo enw'r disgybl hwnnw wedi ei ddileu o'r gofrestr dderbyn ar gyfer yr ysgol honno yn unol â rheoliad 8.

Caniatâd i fod yn absennol

7.—(1) Ni chaiff neb roi caniatâd i fod yn absennol ac eithrio person a awdurdodwyd ar gyfer hynny gan berchennog yr ysgol.

(3) Where the reason for a pupil's absence cannot be established at the time when the register is taken, that absence must be recorded as unauthorised and any subsequent correction to the register recording that absence as authorised must be made in accordance with regulation 13 and as soon as practicable after the reason for the absence is established by the person with responsibility for completing the register.

(4) An approved educational activity is—

- (a) an activity which takes place outside the school premises and which is—
 - (i) approved by a person authorised in that behalf by the proprietor of the school;
 - (ii) of an educational nature, including work experience under section 560 of the Education Act 1996(1) and a sporting activity; and
 - (iii) supervised by a person authorised in that behalf by the proprietor or the head teacher of the school;
- (b) attendance at another school at which the pupil is a registered pupil; or
- (c) attendance on a course of study within the local curriculum at a place other than the school.

(5) The exceptional circumstances in which a pupil may be marked as unable to attend are where—

- (a) the school site, or part of it, is closed due to unavoidable cause at a time when pupils are due to attend;
- (b) in the case of a pupil for whom the local authority is under a duty to make suitable transport arrangements which it is under a duty to provide under section 3 or 4 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008, that transport is not available; or
- (c) a local or national emergency has resulted in widespread disruption to travel which has prevented the pupil from attending school.

(6) The name of a pupil may only be deleted from the attendance register when the pupil's name has been deleted from the admission register for that school in accordance with regulation 8.

Leave of absence

7.—(1) Leave of absence may only be granted by a person authorised in that behalf by the proprietor of the school.

(1) 1996 p.56. Amnewidiwyd is-adrannau (1) a (2) o adran 560 gan adran 112(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diwygiwyd is-adran (3) o adran 560 ymhellach gan adran 112(3) o Ddeddf 1998 ac Atodlen 31 i'r Ddeddf honno.

(1) 1996 c.56. Sub-sections (1) and (2) of section 560 were substituted by section 112(1) of the School Standards and Framework Act 1998. Sub-section (3) of section 560 was further amended by section 112(3) of, and Schedule 31 to, the 1998 Act.

(2) Rhaid peidio â rhoi caniatâd i fod yn absennol er mwyn galluogi disgybl i ymgymryd â chyflogaeth (pa un ai am dâl ai peidio) yn ystod oriau ysgol, ac eithrio—

- (a) cyflogaeth at y diben o gymryd rhan mewn perfformiad yn yr ystyr a roddir i "performance" yn adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963(1) o dan awdurdod trwydded a roddir gan yr awdurdod lleol o dan yr adran honno; neu
- (b) cyflogaeth dramor at ddiben a grybwyllir yn adran 25 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933(2) pan fo trwydded wedi ei rhoi o dan yr adran honno gan ynad heddwch.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan wneir cais gan riant y mae'r disgybl fel rheol yn preswyllo gydag ef, ceir rhoi caniatâd i fod yn absennol o'r ysgol er mwyn galluogi'r disgybl i fynd i ffwrdd ar wyliau.

(4) Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, rhaid peidio â rhoi caniatâd i fod yn absennol i ddisgybl yn unol â pharagraff (3) am fwy na deng niwrnod ysgol mewn unrhyw un flwyddyn ysgol.

(5) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys yn unig i ysgol a gynhelir ac ysgol arbennig nas cynhelir gan awdurdod lleol.

Dileadau o'r gofrestr dderbyn

8.—(1) Rhagnodir y canlynol fel seiliau sy'n peri bod rhaid dileu o'r gofrestr dderbyn enw disgybl sydd mewn oedran ysgol gofodol—

- (a) pan fo'r disgybl wedi ei gofrestru yn yr ysgol yn unol â gofynion gorchymyn mynychu'r ysgol, a'r awdurdod lleol naill ai wedi pennu ysgol arall i gymryd lle'r ysgol a enwyd yn y gorchymyn neu wedi dirymu'r gorchymyn ar y sail bod trefniadau wedi eu gwneud i'r plentyn gael addysg lawnamser effeithlon ac addas ar gyfer ei oedran, ei allu a'i ddoniau, rywfodd ac eithrio mewn ysgol;
- (b) ac eithrio pan fo'r perchennog wedi cytuno y dylid cofrestru'r disgybl mewn mwy nag un ysgol, mewn achos nad yw'n dod o fewn is-baragraff (a) neu reoliad 9, pan fo'r disgybl wedi ei gofrestru fel disgybl mewn ysgol arall;
- (c) pan fo disgybl wedi ei gofrestru mewn mwy nag un ysgol, ac mewn achos nad yw'n dod o

(2) Leave of absence must not be granted to enable a pupil to undertake employment (whether paid or unpaid) during school hours except—

- (a) employment for the purpose of taking part in a performance within the meaning of section 37 of the Children and Young Persons Act 1963(1) under the authority of a licence granted by the local authority under that section; or
- (b) employment abroad for a purpose mentioned in section 25 of the Children and Young Persons Act 1933(2) where a licence has been granted under that section by a justice of the peace.

(3) Subject to paragraph (4), on application made by a parent with whom the pupil normally resides, a pupil may be granted leave of absence from the school to enable the pupil to go away on holiday.

(4) Save in exceptional circumstances, a pupil must not in pursuance of paragraph (3) be granted more than ten school days leave of absence in any school year.

(5) This regulation applies only in relation to a maintained school and a special school not maintained by a local authority.

Deletions from admission register

8.—(1) The following are prescribed as the grounds on which the name of a pupil of compulsory school age must be deleted from the admission register—

- (a) where the pupil is registered at the school in accordance with the requirements of a school attendance order, that another school is substituted by the local authority for that named in the order or the order is revoked by the local authority on the ground that arrangements have been made for the child to receive efficient full-time education suitable to the child's age, ability and aptitude otherwise than at school;
- (b) except where it has been agreed by the proprietor that the pupil should be registered at more than one school, in a case not falling within sub-paragraph (a) or regulation 9, that the pupil has been registered as a pupil of another school;
- (c) where a pupil is registered at more than one school, and in a case not falling within sub-

(1) 1963 p.37; diwygiwyd gan O.S. 1998/276, paragraff 32 o Atodlen 6 i Ddeddf Trwyddedu 2003 (p.17), paragraff 6 o Atodlen 20 i Ddeddf Darlledu 1990 (p.42) a pharagraff 10 o Atodlen 37 i Ddeddf Addysg 1996 (p.56).

(2) 1933 p.12; diwygiwyd gan O.S. 1998/276, paragraff 3 o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989 (p.41), paragraff 10 o Ran 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Cyflogaeth 1989 (p.38), paragraff 7 o Atodlen 5 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 a chan baragraff 73 o Atodlen 8 i Ddeddf Llysoedd 2003 (p.39).

(1) 1963 c.37; amended by S.I. 1998/276, paragraph 32 of Schedule 6 to the Licensing Act 2003 (c.17), paragraph 6 of Schedule 20 to the Broadcasting Act 1990 (c.42) and paragraph 10 of Schedule 37 to the Education Act 1996 (c.56).

(2) 1933 c.12; amended by S.I. 1998/276, paragraph 3 of Schedule 13 to the Children Act 1989 (c.41), paragraph 10 of Part 3 of Schedule 3 to the Employment Act 1989 (c.38), paragraph 7 of Schedule 5 to the Children and Young Persons Act 1963 and by paragraph 73 of Schedule 8 to the Courts Act 2003 (c.39).

- fewn is-baragraff (g) neu (i) ac eithrio fel a ddarperir yn rheoliad 9, a'r disgybl wedi peidio â mynychu'r ysgol, a pherchennog unrhyw ysgol arall y cofrestrwyd y disgybl ynddi wedi cydsynio i'r dilead;
- (ch) mewn achos nad yw'n dod o fewn is-baragraff (a), pan fo'r disgybl wedi peidio â mynychu'r ysgol a'r perchennog wedi cael hysbysiad ysgrifenedig gan y rhiant bod y disgybl yn cael addysg rywfodd ac eithrio mewn ysgol;
- (d) ac eithrio yn achos disgybl preswyl, pan fo'r disgybl wedi peidio â mynychu'r ysgol ac nad yw bellach yn preswyl fel arfer mewn man sydd o fewn pellter rhesymol i'r ysgol lle y mae'r disgybl wedi ei gofrestru;
- (dd) yn achos disgybl y rhoddwyd caniatâd i fod yn absennol am fwy na deng niwrnod ysgol iddo at y diben o fynd i ffwrdd ar wyliau yn unol â rheoliad 7(3)—
- (i) pan na fu'r disgybl yn bresennol yn yr ysgol o fewn y deng niwrnod ysgol yn union ar ôl diwedd y cyfnod y rhoddwyd y caniatâd i fod yn absennol ar ei gyfer;
- (ii) nad yw'r perchennog wedi ei fodloni bod y disgybl yn analluog i fynychu'r ysgol oherwydd salwch neu unrhyw achos anocheledwy; a
- (iii) y perchennog yn ogystal â'r awdurdod lleol, ar ôl gwneud ymholiad rhesymol, wedi methu â darganfod lle y mae'r disgybl;
- (e) pan fo'r swyddog meddygol ysgolion wedi ardstyio bod y disgybl yn annhebygol o fod mewn cyflwr iechyd priodol i fynychu'r ysgol cyn peidio â bod mewn oedran ysgol gorfodol, ac nad yw'r disgybl na'i riant wedi mynegi wrth yr ysgol bod bwriad i'r disgybl barhau i fynychu'r ysgol ar ôl peidio â bod mewn oedran ysgol gorfodol;
- (f) pan fo'r disgybl wedi bod yn absennol yn ddi-dor o'r ysgol am gyfnod o ddim llai nag ugain diwrnod ysgol, ac—
- (i) nad oedd ei absenoldeb, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi ei awdurdodi gan y perchennog yn unol â rheoliad 6(2);
- (ii) nad yw'r perchennog wedi ei fodloni bod y disgybl yn analluog i fynychu'r ysgol oherwydd salwch neu unrhyw achos anocheledwy; a
- (iii) bod perchennog yr ysgol yn ogystal â'r awdurdod lleol, ar ôl gwneud ymholiad rhesymol, wedi methu â darganfod lle y mae'r disgybl;
